SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Y bobl an arferol?

Mae lle i bawb fel gwirfoddolwr yn y System Cyfiawnder Troseddol



Gwirfoddoli yn y System Cyfiawnder Troseddol

Pam gwirfoddoli?

Gall gwirfoddoli wneud gwahaniaeth go iawn – i unigolion, ein cymunedau ac i'r modd y caiff y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) ei chyflwyno.

Beth alla i ei wneud?

Mae ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli yn y CJS, sy'n agored i bawb, beth bynnag fo'u cefndir, eu hoedran neu'u sgiliau.

Er enghraifft, gallwch:

- wneud cymunedau yn fwy diogel trwy gefnogi'r heddlu fel cwnstabl arbennig;
- adeiladu cymunedau diogel a hyderus fel cydlynydd Gwarchod y Gymdogaeth;
- helpu i sicrhau cyfiawnder fel ynad;
- cefnogi dioddefwyr a thystion trosedd fel gwirfoddolwr Cymorth i Ddefnyddwyr neu Wasanaeth Tystion;
- helpu i fynd i'r afael â throsedd a lleihau aildroseddu fel aelod o'r panel troseddau pobl ifanc; neu
- helpu troseddwyr i ailafael yn eu bywydau fel ymwelydd â charchardai neu fentor.

Faint o amser sydd ei angen ar gyfer hyn?

Chi sy'n penderfynu faint o amser yr ydych yn ei roi yn ôl eich amgylchiadau personol, ond gall hefyd ddibynnu ar y rôl. Gall hyn amrywio o gymorth achlysurol i sawl diwrnod yr wythnos. Cyfeiriwch at asiantaethau/ sefydliadau unigol i gael mwy o wybodaeth.

Beth sydd ei angen arna i?

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes angen cymwysterau ffurfiol, dim ond parodrwydd i roi amser ac ymdrech.

Beth yw'r manteision i mi?

Gall gwirfoddoli roi boddhad mawr. Gall gynnig y canlynol i chi:

- ymdeimlad o werth ac angen;
- profiad gwaith a dewisiadau gyrfa cynyddol;
- sgiliau newydd a gwell;
- datblygiad a chyflawniad personol;
- cyfleoedd hyfforddi;
- cyfle i gyfarfod â phobl newydd; ac yn bennaf
- cyfle i wneud gwahaniaeth.

Ble alla i gael gwybod mwy?

I gael gwybod mwy, trowch at **www.cjsonline.gov.uk** neu wefan eich Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol **www.lcjb.cjsonline.gov.uk**. Fel arall, gallwch droi at y gwefannau canlynol, sy'n cynnig ychydig enghreifftiau o asiantaethau a sefydliadau allanol sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr yn y CJS:

Recriwtio gwasanaeth yr heddlu – www.policecouldyou.co.uk
Dod yn ynad – www.magistrates.gov.uk
Gwarchod y Gymdogaeth – www.neighbourhoodwatch.net
Cymorth i Ddioddefwyr – www.victimsupport.org.uk
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – www.yjb.gov.uk
Gwefannau heddluoedd (cyfleoedd cadetiaid yn yr heddlu, ac ati) – www.police.uk/forces.htm
Cymdeithas Genedlaethol Ymwelwyr â Charchardai – www.naopv.com
Byrddau Monitro Annibynnol – www.imb.gov.uk
Clinks – www.clinks.org
PACT (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai) – www.prisonadvice.org.uk
SOVA (Cefnogi eraill trwy weithredu gwirfoddolwyr) – www.sova.org.uk
Cymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol – www.icva.org.uk
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – www.probation.homeoffice.gov.uk
Gwasanaeth Carchardai EM – www.hmprisonservice.gov.uk
NACRO (elusen lleihau troseddau) – www.nacro.org.uk

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Swyddfa Gartref

Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol

Y System Cyfiawnder Troseddol: gweithio gyda'n gilydd er mwyn y cyhoedd

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ym mis Mai 2009.
Cod y cynnyrch: VOLUNTLEAFLET/09/W

www.cjsonline.gov.uk